

Adolygiad Cenedlaethol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Adolygiad Cymru Gyfan o Benderfyniadau Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol (DNACPR)

Cylch Gorchwyl

Cyd-destun

Lansiwyd y polisi Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol (DNACPR) Cymru Gyfan i oedolion yn 2015 gan y Dirprwy Weinidog Iechyd. Cafodd ei ddiwygio a'i ddiweddarau yn 2017, 2020 a 2022, a chaiff ei adolygu bob dwy flynedd. Mae'r polisi yn darparu fframwaith er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i gynnwys cleifion a bod penderfyniadau DNACPR yn adlewyrchu'r sgysiau a geir gyda'r unigolyn, ac nad yw unrhyw feichiau yn gwrthbwysu unrhyw fuddiannau. Mae hefyd yn nodi'n amlwg sut y caiff penderfyniad DNACPR ei gofnodi a'i gyfleu'n glir rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chleifion a'r rhai hynny sy'n agos atynt¹. Er mwyn gwella'r cyfathrebu rhwng aelodau o staff ym mhob rhan o'r system gofal iechyd yng Nghymru, ac osgoi unrhyw ymdrechion amhriodol i gyflawni CPR ar ddiwedd oes unigolyn a allai achosi gofid a thrawma sylweddol, rhoddwyd dogfen safonol ac unedig ar waith. Fe'i defnyddir i gofnodi pob penderfyniad DNACPR ymhlith y boblogaeth oedolion yng Nghymru.

Yn sgil y galw digynsail ar y system gofal iechyd ledled y byd yn ystod pandemig COVID-19, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cleifion a gafodd eu derbyn i unedau gofal dwys yn dioddef o COVID-19². Tynnodd y pandemig sylw at gyn lleied o sgysiau a oedd wedi'u cael am CPR, a'i gyfraddau llwyddiant mewn gwahanol sefyllfaoedd. Nododd astudiaeth a gynhaliwyd yn UDA gan Thapa et al (2021)³ na fu unrhyw ymdrechion i gyflawni CPR ar y rhai hynny a oedd yn dioddef o COVID-19 yn nhaleithiau Georgia a Michigan yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod pan oedd y pandemig yn ei anterth.

Ym mis Ebrill 2020, cafodd Llywodraeth Cymru wybod am bryderon gan eiriolwyr cymunedau pobl anabl a phobl ag anabledau dysgu. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â sut y gallai'r Raddfa Eiddilwch Clinigol⁴ gael ei defnyddio'n amhriodol wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas ag uwchgyfeirio gofal, a'r trafodaethau

¹ [DNACPR - Gweithrediaeth GIG Cymru](#)

² [DNACPR decision-making in the COVID-19 pandemic | The BMJ](#)

³ Thapa SB, Kakar TS, Mayer C, Khanal D. Clinical Outcomes of In-Hospital Cardiac Arrest in COVID-19. JAMA Intern Med. 2021;181(2):279–281. doi:10.1001/jamainternmed.2020.4796

⁴ [Clinical Frailty Scale — Specialised Clinical Frailty Network \(scfn.org.uk\)](#)

am y trothwyon trin, CPR a DNACPR i unigolion a oedd wedi cael prawf COVID-19 positif. Yn dilyn hynny, cyhoeddodd Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrso Cymru lythyr ar y cyd yn nodi bod fframwaith newydd o werthoedd ac egwyddorion ar gyfer darparu gofal iechyd yng Nghymru wedi cael ei roi ar waith, er mwyn rhoi arweiniad i wasanaethau gofal iechyd wrth wneud penderfyniadau yn ystod y pandemig. Roedd y fframwaith yn cyfeirio at bwysigrwydd sicrhau bod y rhai hynny â chyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol yn gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw wrth ymdrin â phenderfyniadau DNACPR. Mae hefyd yn tynnu sylw at yr hyn y mae polisi DNACPR Cymru Gyfan yn cyfeirio ato fel 'y ddyletswydd i ymgynghori' â chleifion a'r rhai hynny sy'n agos atynt, pan fydd timau clinigol yn gwneud y penderfyniadau hyn.

Cyhoeddwyd yr adroddiad, *Protect, Respect, Connect-Decisions about Living and Dying Well During COVID-19* hefyd gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) ym mis Mawrth 2021⁵. Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth y DU mewn ymateb i straeon newyddion, cwynion ac ymgyrchoedd am fethiannau canfyddedig wrth wneud penderfyniadau DNACPR yn y GIG yn Lloegr. Cydnabu'r adroddiad fod y gofynion eithriadol a oedd yn gysylltiedig â'r ymateb i'r pandemig wedi cynyddu'r pwysau ar staff a gwasanaethau iechyd a gofal, a allai fod wedi cael effaith andwyol ar benderfyniadau ac yn arbennig ar y broses o gyfathrebu wrth wneud penderfyniadau.

Nododd y Comisiwn Ansawdd Gofal nad yw penderfyniadau DNACPR yn cael eu gwneud fel penderfyniadau ar wahân, ond eu bod yn rhan o sbectrwm ehangach o brosesau cynllunio gofal ar gyfer cynlluniau tymor hir, cynllunio gofal ymlaen llaw ar gyfer penderfyniadau diwedd oes a chynlluniau ar gyfer uwchgyfeirio at driniaeth frys. Yn ogystal, cafwyd cydnabyddiaeth glir gan y Comisiwn y dylai clinigwyr fod yn gwneud mwy o'r holl bethau hyn.

Cwmpas

Mewn ymateb i'r pryderon a nodwyd uchod a gwybodaeth allweddol a ddelir gan AGIC, gwnaethom benderfynu cynnal adolygiad o benderfyniadau DNACPR ledled Cymru. Ym mis Ionawr 2023, gwnaethom ddechrau pennu cwmpas ein gwaith, gan ymgysylltu â sampl o wasanaethau gofal iechyd GIG Cymru a'r cyhoedd, er mwyn helpu i lywio a mireinio'r cwmpas. Gwnaethom atal ein gwaith dros dro er mwyn archwilio ac ystyried gwaith arall a oedd yn mynd rhagddo ledled Cymru mewn perthynas â DNACPR, ac ailddechreuodd ein gwaith wedi hynny ym mis Medi 2023.

Nod ein hadolygiad yw ystyried yr arferion sydd ar waith pan gaiff penderfyniadau DNACPR eu cymhwyso at gleifion sy'n oedolion (dros 18 oed), ac a gaiff safbwyntiau ac ystyriaethau cleifion eu parchu. Byddwn yn ystyried a yw penderfyniadau DNACPR

⁵ [Protect, Respect, Connect-Decisions about Living and Dying Well During COVID-19 \(CQC.org.uk\)](https://www.cqc.org.uk/publications/protect-respect-connect)

yn adlewyrchu blaenoriaethau'r unigolyn, yn ogystal â'r gofynion a ffefrir ganddo o ran gwybodaeth⁶, ac a gaiff penderfyniadau DNACPR eu cofnodi a'u cyfleu'n glir rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, ac â'r cleifion a'r rhai hynny sy'n agos atynt.

Mae ein gwaith ymchwil a'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi helpu i lywio cwrmpas ein gwaith, sef sut i ateb y cwestiwn canlynol:

- **A yw penderfyniadau DNACPR yn cael eu cyfleu mewn ffordd barchus i gleifion a'r rhai hynny sy'n agos atynt, ac a ydynt yn cael eu cofnodi a'u cyfleu'n glir rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol?**

Bydd ein llinellau ymholi allweddol yn cynnwys y canlynol:

- A yw'r ddogfennaeth DNACPR sydd wedi'i chynnwys fel rhan o gofnodion meddygol (ac nid dim ond y ffurflenni DNACPR) yn gadarn?
- A yw'r ddogfennaeth DNACPR yn adlewyrchu'r cyfathrebu a fu â'r claf, a'r rhai hynny sy'n agos at y claf, yn briodol?
- A oes tystiolaeth fod penderfyniadau DNACPR yn cael eu cyfleu i wahanol dimau gofal iechyd?
- Sut mae clinigwyr yn ystyried anghenion cyfathrebu pobl er mwyn sicrhau eu bod yn deall y broses ar gyfer gwneud penderfyniadau DNACPR yn llawn?
- Pa fesurau sydd ar waith gan sefydliadau gofal iechyd i sicrhau bod clinigwyr yn ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau DNACPR?

Methodoleg

Er mwyn ystyried y llinellau ymholi allweddol uchod, byddwn yn archwilio'r prosesau sydd ar waith ar gyfer gwneud penderfyniad DNACPR a rhoi'r penderfyniad hwnnw ar waith, a byddwn yn ystyried tystiolaeth o arferion da a meysydd i'w gwella.

Er mwyn helpu i lywio canfyddiadau ein hadolygiad, byddwn yn ystyried y canlynol:

- Ffurflenni penderfyniadau DNACPR wedi'u cwblhau a'r cofnodion meddygol ategol mewn perthynas â sgysiau trothwyon trin, i oedolion dros 18 oed
- Polisiâu a gweithdrefnau sefydliadau gofal iechyd ar gyfer penderfyniadau DNACPR gan gynnwys y broses neu'r weithdrefn ar gyfer y rhai hynny ag anawsterau cyfathrebu, fel amhariad synhwyraidd, anabledau dysgu neu rwystrau iaith
- Prosesau sefydliadau gofal iechyd ar gyfer archwilio penderfyniadau DNACPR

⁶ Mae'n bosibl y bydd rhai unigolion am gael yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â DNACPR, gan gynnwys gwybodaeth am natur ffyrnig a chanlyniadau gwael CPR, ond gall clywed gwybodaeth o'r fath beri gofid sylweddol i eraill, ac mae'n bosibl na fyddant am gael gwybod.

- Sut mae staff gofal iechyd yn cynnal eu gwybodaeth a'u sgiliau o ran cyfathrebu â phobl mewn perthynas â phenderfyniadau DNACPR.

Byddwn hefyd yn gwneud y canlynol:

- Datblygu a lansio arolwg i weithwyr proffesiynol er mwyn canfod lefel gwybodaeth a sgiliau staff sy'n gysylltiedig â'r broses DNACPR
- Ymgysylltu â staff gofal iechyd yn ystod ein gwaith maes drwy gyfweiliadau a/ neu grwpiau ffocws
- Ceisio deall profiad y rhai hynny sy'n agos at y claf o ran y broses DNACPR.

Gweithio gyda sefydliadau eraill

Ein nod yw cydweithio ag amrywiaeth o randdeiliaid i'n helpu i ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn deall eu profiadau a'r hyn y maent yn ei wybod am y broses DNACPR. Lle y bo angen, byddwn yn cydgysylltu â rhanddeiliaid ar adegau allweddol drwy gydol yr adolygiad, er mwyn rhannu cynlluniau a sicrhau bod unrhyw gyfleoedd i gydweithio yn cael eu hystyried er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion yn ddiangen ac i rannu canfyddiadau ar ôl cwblhau gwaith maes.

Amserlen

Dechreuwyd ar waith i bennu cwmpas yr adolygiad a chynnal gwaith ymchwil cysylltiedig ym mis Ionawr a mis Chwefror 2023, ond wedyn cafodd ei atal am gyfnod. Gwnaed rhagor o waith yn ystod mis Awst a mis Medi i fireinio cwmpas yr adolygiad. Bydd y broses o gynllunio methodoleg yr adolygiad ar gyfer y gwaith maes yn dechrau ym mis Hydref 2023.

Llinell amser arfaethedig:

Gweithgaredd	Amserlen
Cynllunio gwaith maes ac adolygu dogfennau	Medi - Tachwedd 2023
Gwaith maes (ar safleoedd neu o bell)	Tachwedd 2023 - Rhagfyr 2023
Lansio'r arolygon i'r cyhoedd ac i staff	Tachwedd 2023
Dadansoddi'r arolygon a thystiolaeth	Ionawr - Chwefror 2024
Drafftio'r adroddiad	Chwefror - Mawrth 2024
Cyhoeddi'r Adroddiad	Gwanwyn 2024

Dadansoddi ac adrodd

Daw'r adolygiad i ben drwy gyhoeddi adroddiad cenedlaethol yn ystod gwanwyn 2024. Bydd yr adroddiad yn nodi themâu allweddol a meysydd lle ceir arferion da a bydd yn gwneud argymhellion lle caiff gwelliannau gofynnol eu nodi drwy gydol ein hadolygiad. Os caiff unrhyw bryderon brys eu nodi yn ystod ein hadolygiad, cânt eu codi'n brydlon â'r darparwyr gofal iechyd a/neu Lywodraeth Cymru a/neu unrhyw

sefydliadau eraill perthnasol. Yn ogystal, lle y byddwn o'r farn bod hynny'n briodol, caiff unrhyw ganfyddiadau interim eu cyfleu i'n rhanddeiliaid wrth i'n hadolygiad fynd rhagddo.

Cyhoeddi ac ymgysylltu

Caiff tudalen we benodedig ei datblygu ar gyfer yr adolygiad ar wefan AGIC, a fydd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau allweddol yr adolygiad. Byddwn hefyd yn defnyddio sawl adnodd cyfathrebu a sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'r ffordd y gall pobl gymryd rhan yn yr arolwg cenedlaethol ar unrhyw weithgareddau ymgysylltu. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol, caiff gwaith dilynol, gwaith ymgysylltu a digwyddiadau dysgu posibl eu hystyried.

Data personol

Mae'r adolygiad hwn yn rhan o'n gwaith i ddarparu sicrwydd annibynnol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhan II, Pennod 4) yn rhoi'r pŵer i AGIC gynnal arolygiadau, adolygiadau ac ymchwiliadau mewn perthynas â'r GIG neu wasanaethau a ddarperir ar ran y GIG.

Pan fyddwn yn prosesu data personol, gwneir hynny'n unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Ceir rhagor o wybodaeth ym mholisi preifatrwydd AGIC sydd ar gael ar y wefan; [hysbysiad preifatrwydd AGIC](#).